Llŷn
Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Area of Outstanding Natural Beauty

Rhif 20 • 2026
www.ahne-llyn-aonb.cymru

# Llygad Llŷn

## Newyddlen AHNE Llŷn

*Yn y rhifyn hwn*

**Hyfforddiant Sgiliau Gwledig**

**Gwirfoddoli**

**Digwyddiadau**

**Prosiectau**

**Cronfa Datblygu Cynaliadwy**




rhifyn 20

am ddim







# Croeso i rifyn 2026 o Llygad Llŷn!

Braint eleni yw cyflwyno i chi, rifyn 20 o'n newyddlen arbennig. Mae pob math o brosiectau a gweithgareddau wedi bod yn digwydd yn AHNE Llŷn dros y misoedd diwethaf, a braf yw cael rhannu'r wybodaeth amdanynt.

Mae newyddion amrywiol yma – yn cynnwys hanes prosiectau difyr, gweithgareddau cyhoeddus a sesiynau gwirfoddoli.

Ni fyddai modd cyflawni ein gwaith yma yn AHNE Llŷn heb nawdd gan Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Gwynedd. Rydym yn gwerthfawrogi hefyd ymrwymiad yr holl aelodau ar ein Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol. Diolchwn am yr holl gefnogaeth eto eleni – gan sicrhau ein bod yn gallu codi ymwybyddiaeth am Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn a chydweithio yn lleol i gynnal a gwarchod yr holl nodweddion arbennig sydd yma.

Mae croeso i chi gysylltu gyda ni am fwy o wybodaeth am unrhyw elfen o'n gwaith neu roi eich barn.

Byddwn yn croesawu eich adborth.

**CYHOEDDWYD GAN:** AHNE Llŷn

**LLUN CLAWR:** Eglwys Llandegwnning

**LLUN ISOD:** Gwlad Llŷn o Nant Gwrtheyrn
© Gareth Jenkins

**ARGRAFFWYD GAN:** Gwasg Carreg Gwalch

Cynnwys a Chyflwyniad ........................ 2

Map AHNE Llŷn .................................... 3

Hyfforddiant Sgiliau Gwledig ................. 4

Cyfleoedd Gwirfoddoli ........................ 5-7

Digwyddiadau .................................. 8-10

Prosiectau ..................................... 11-13

Lle yn Llŷn? .................................... 14-15

Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy ............. 16

## MANYLION CYSWLLT

AHNE Llŷn
Gwasanaeth Polisi Cynllunio, Tirwedd a Natur
Adran Amgylchedd
Cyngor Gwynedd
Ffordd y Cob
Pwllheli
LL53 5AA

**Gwefan** www.ahne-llyn-aonb.cymru
**Instagram** @ahnellynaonb
**E-bost** ahne@gwynedd.llyw.cymru









hyfforddiant sgiliau gwledig



# Hyfforddiant Codi Waliau Cerrig Traddodiadol







Mae ein rhaglen flynyddol o hyfforddiant sgiliau gwledig yn parhau yn ystod mis Awst 2026. Byddwn eto yn ail-godi rhai o'r waliau cerrig traddodiadol ar Fynydd Rhiw. Mae'r hyfforddiant hwn yn cynnig cyfle i bobl ddysgu hen grefft a chyfrannu at gynnal a chadw yr amgylchedd hanesyddol – ac ennill sgiliau gwerthfawr at y dyfodol. Yn syml hefyd – gallwch ymuno er mwyn mwynhau'r awyr iach mewn ardal fendigedig.

Os hoffech chi gofrestru diddordeb – cysylltwch â ni.





gwirfoddoli

# Gwirfoddoli

**Mae llawer o waith gwerth chweil a phwysig wedi bod yn digwydd dros y misoedd diwethaf diolch i bobl ifanc ac oedolion sydd wedi rhoi eu hamser yn wirfoddol i wella eu cymunedau.**

## Ffrindiau'r AHNE

Mae grŵp Ffrindiau'r AHNE yn ymgymryd â thasgau yn rheolaidd – gyda Kevin Roberts, Warden AHNE Llŷn yn cefnogi a bod wrth law i oruchwylio gyda defnyddio'r offer a'r peiriannau. **Mae croeso cynnes i unrhyw un ymuno gyda ni – gyrrwch e-bost!**

Mae rhai enghreifftiau o waith diweddar yn cynnwys cynnal a chadw safle Capel Newydd Nanhoron, gwella'r llwybr i gopa bryngaer Garn Boduan a chlirio sbwriel oddi ar draethau Porth Neigwl ac Aberdaron. Buom hefyd yn gwella rhwydwaith o lwybrau cyhoeddus yn Aberdaron.

Yn wir – roedd y gwaith yn Aberdaron yn werth ei weld ac felly dyma drefnu taith natur arbennig ar gyfer disgyblion Ysgol Crud y Werin er mwyn crwydro'r llwybrau a mwynhau.

## Gwirfoddoli fel Grŵp

**Mae modd cysylltu gyda ni er mwyn cydweithio i drefnu sesiwn wirfoddoli fel grŵp – boed fel ysgol, clwb ieuenctid, cymdeithas neu wasanaeth cyhoeddus arbennig. Rydym yn awyddus i drafod a chydweithio bob amser!**

Cafwyd un diwrnod arbennig yn ardal Llandegwnning yng nghwmni brwd a gweithgar Clwb Ffermwyr Ifanc y Rhiw ac aelodau o Gyfeillion Eglwys Llandegwnning.

Saif Eglwys Llandegwnning ym mhlwyf Botwnnog. Dyma adeilad trawiadol a hynod ddiddorol o ran ei hanes. Cafodd yr adeilad presennol ei ail-adeiladu yn 1840 ac mae wedi ei restru gan Cadw. Nid oes cofnod o pa bryd yr adeiladwyd yr eglwys wreiddiol ond cysegrwyd y safle i Sant Gwynin o'r 6ed Ganrif. Ychydig a wyddus am Gwynin – ond dywedir ei fod yn un o fynachod Ynys Enlli.

Treuliwyd y bore ar y safle yn barbio, plannu, clirio, glanhau a thrwsio dodrefn.










gwirfoddoli







## Awydd Cydweithio?

**Cysylltwch gyda ni am sgwrs os ydych yn grŵp penodol neu os oes gennych chi safle penodol mewn golwg angen ei wella. Rhaid i'r safle fod yn lleoliad cyhoeddus o fewn ffiniau'r AHNE.**
**ahne@gwynedd.llyw.cymru**

















## Pam Gwirfoddoli?

Mae llawer o fuddion i wirfoddoli – yn cynnwys:-

- Cyfarfod pobl newydd – ffrindiau oes!
- Dysgu am leoliadau arbennig yn eich ardal a'r hanes.
- Rhoi ymdeimlad o berthyn a balchder yn eich ardal.
- Cyfle i siaradwyr newydd ymarfer eu Cymraeg mewn awyrgylch groesawgar a chefnogol.
- Bod yn rhan o gynnal treftadaeth arbennig.
- Cynorthwyo i warchod yr amgylchedd a'r bywyd gwyllt.
- Ennill sgiliau gwerthfawr a hyder ar gyfer byd gwaith.
- Ennill amser gwirfoddol fel rhan o gymwysterau neu gwrs coleg.
- Gwella iechyd.
- Cyfle i ennill cymwysterau gyda Choleg Glynllifon wedi eu hachredu gan Lantra.

gwirfoddoli









# Digwyddiadau

**Rydym wedi cynnal sawl digwyddiad dros y misoedd diwethaf sydd yn codi ymwybyddiaeth am dirlun a rhinweddau arbennig yr ardal. Dyma i chi flas ar rai ohonynt:-**



## Taith Natur – Ysgol Crud y Werin, Aberdaron

Diolch i waith caled ein gwirfoddolwyr yn clirio llwybrau, cafwyd taith hyfryd yng nghwmni disgyblion Ysgol Crud y Werin. Mae pentref Aberdaron yn cynnwys rhwydwaith o lwybrau difyr a'n gwaith ydyw cynorthwyo i'w cynnal a chadw a thynnu sylw at y cyfleoedd hamdden maent yn ei gynnig. Mae rhai yn lwybrau arfordirol ac eraill yn rhai mewndirol – yn eich harwain i lefydd digon diddorol. Maent yn lwybrau hanesyddol yn llawn chwedlau a bywyd gwyllt arbennig.

Aeth y daith gyda chriw Crud y Werin o'r ysgol ac i lawr i'r pentref – gan droi gyferbyn â'r Becws i fyny'r nant a dilyn trywydd yr afon Daron. Cawsom edrych ar nifer o blanhigion gwahanol a chlywed trydar yr adar. Rhannwyd hanesion hefyd am y smyglwyr oedd yn troedio'r ardal dros y canrifoedd.






Roeddem yn dilyn ôl troed mae'n debyg, y smyglwr halen enwog Huw Andro. Diolch i'r plant am fore difyr a digon o sgwrsio!

Diolch hefyd am y croeso cynnes yng nghaffi'r Gegin Fach i orffen.



## Sesiwn Wybodaeth – Creu Dolydd Blodau Gwylltion

Cawsom sesiwn ddifyr dan arweiniad Jo Porter o brosiect Dolydd Llŷn ar safle'r Felin Uchaf yn Rhoshirwaun. Mae Jo yn arwain ar brosiect Dolydd Llŷn – a bu'n rhoi cyflwyniad yn egluro sut mae mynd ati i greu dôl flodau o'r newydd a'u cynnal. Cafwyd cyfle wedyn i grwydro'r dolydd o amgylch y safle. Roedd yn sesiwn ddiddorol – ac yn plethu yn dda iawn i gynlluniau amgylcheddol eraill yn yr ardal ar hyn o bryd megis rhaglen Llywodraeth Cymru – Ffermio Bro.
















## Digwyddiadau i Ddod...

### SESIWN WYBODAETH – PLANHIGION ESTRON

**Dydd Iau, Ebrill 30ain – 1:30 tan 3:00 o'r gloch**
**Canolfan Fenter Congl Meinciau, Botwnnog**

Sesiwn wybodaeth anffurfiol gyda Gethin Davies o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn edrych ar wahanol rywogaethau estron a sut gellir eu gwaredu yn llwyddiannus - gyda chyfle i glywed am gefndir Prosiect Coedwigoedd Glaw Celtaidd LIFE. Byddwn yn clywed hefyd am y gwaith gan dîm AHNE Llŷn yn gwaredu gwahanol blanhigion dros y misoedd diwethaf gyda chefnogaeth ein gwirfoddolwyr. Bydd angen cofrestru o flaen llaw os gwelwch yn dda:-**ahne@gwynedd.llyw.cymru**

### SESIWN WYBODAETH – TREFNU A CHYNNAL TEITHIAU CERDDED LLWYDDIANNUS

**Dydd Iau, Mai 14eg – 1:30 tan 3:00 o'r gloch**
**Canolfan Fenter Congl Meinciau, Botwnnog**

Ydych chi yn trefnu teithiau tywys yn eich ardal leol? Neu a oes gennych chi fwriad i wneud – ond yn ansicr sut mae mynd ati i roi'r trefniadau ar waith? Hoffech chi drafod eich syniadau mewn awyrgylch anffurfiol a hwyliog? Bydd y sesiwn hon yn gyfle da i rannu profiadau ac arferion da er mwyn rhoi sgiliau a gwybodaeth i chi drefnu teithiau tywys yn llwyddiannus sydd yn hygyrch i bawb. Byddwn hefyd yn rhannu gwybodaeth am lwybrau diddorol sydd i'w cael yn yr ardal. Sesiwn yng nghwmni Elin, Swyddog Gweithgareddau AHNE Llŷn a Carys, Cydlynydd Canolfan Fenter Congl Meinciau. Bydd angen cofrestru o flaen llaw os gwelwch yn dda:- **ahne@gwynedd.llyw.cymru**

## Awyr Dywyll Arbennig!



Mae'n ffaith fod tirwedd Llŷn yn arbennig o hardd yn ngolau dydd – ond mae tywyllwch y nos hefyd yn cynnig cyfle i ni fwyhau'r awyr naturiol. Yn ogystal â'r mwynhad o brofi rhyfeddodau'r bydysawd – mae awyr dywyll o safon yn hollbwysig o ran ffyniant byd natur.

Rydym yn frwd dros warchod awyr dywyll y nos yn yr ardal, cydweithio ac addysgu i leihau llygredd golau artiffisial - ac ymgeisio i ennill statws swyddogol gan y Gymdeithas Awyr Dywyll Ryngwladol (IDA).

Cafwyd sawl gweithgaredd yn lleol er mwyn codi ymwybyddiaeth am ein hawyr dywyll arbennig. Yn wir – mae Llŷn yn un o'r ardaloedd gorau yng Nghymru o ran safon tywyllwch y nos ac rydym yn hynod o falch fod Ynys Enlli wedi ei hardystio'n Noddfa Awyr Dywyll Ryngwladol yn 2023.

Yn ystod dathliadau Wythnos Awyr Dywyll Cymru ym mis Chwefror - cafwyd noson arbennig yng nghwmni Mair Tomos Ifans ym Mhlas Carmel. Bu Mair yn adrodd straeon o bob cwr o'r byd a chwedlau difyr yn ymwneud â'r sêr a'r lleuad a buom yn cyd-ganu hefyd gyda Mair ar y delyn fach. Mae Mair yn rhan o brosiect cenedlaethol ehangach Cysur y Sêr – a diolch yn fawr iddi am danio brwdfrydedd a dychymyg – ac am gynnal naws gysurus. Diolch hefyd i'r staff ym Mhlas Carmel am y croeso.

Yn ogystal, bu'r prifardd Meirion MacIntyre Huws yn ymweld â nifer o ysgolion yr ardal yn cynnal gweithdai barddoni. Buom yn trafod ystyr a phwysigrwydd awyr dywyll arbennig yr ardal, pa fath o ryfeddodau sydd yn y nos ac effaith niweidiol llygredd golau artiffisial ar fywyd gwyllt. Diolch i bob ysgol am gymryd rhan ac am frwdfrydedd a cherddi bendigedig gan y disgyblion. Diolch yn arbennig hefyd i Mei am ei arweiniad ac am ysbrydoli'r plant i fwynhau'r tirwedd naturiol arbennig o'u cwmpas.



Ysgol Foel Gron



Ysgol Tudweiliog



Ysgol Edern





# Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy

O dan gynllun Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy (TCLlC) mae Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol Cymru a'r Parciau Cenedlaethol, yn gallu gwneud cais i Lywodraeth Cymru am arian grant cyfalaf.

Cronfa o arian ar gyfer cefnogi prosiectau amgylcheddol ydi'r TCLlC gyda phwyslais cynyddol ar gynnal ac adfer natur a dad-garboneiddio. Gellir hefyd geisio am arian tuag at brosiectau amgylcheddol ehangach megis gwella is-adeiledd a mynediad.

Yn dilyn nifer o brosiectau llwyddiannus yn ystod 2022-25 rydym bellach mewn cyfnod grant newydd yn rhedeg o 2025 i 2027. Dyma wybodaeth am y prosiectau y buom yn gweithio arnynt yn ystod y misoedd diwethaf:



## Plannu Coed Cynhenid

Yn dilyn gwaith blaenorol – un o'r prosiectau cyfalaf allweddol oedd plannu coed cynhenid. Mae plannu coed o'r math yma yn cynnig buddion sylweddol i'r amgylchedd yn cynnwys:

- Creu cynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt
- Amsugno carbon o'r amgylchedd
- Puro a rheoli dŵr
- Darparu adnodd cynaliadwy i'r dyfodol

Bu gwaith yn digwydd ar y safleoedd canlynol:

- Tŷ'n Parc, Y Rhiw
- Plas yn Rhiw, Y Rhiw
- Tir ger y Fynwent, Nefyn

Defnyddiwyd coed cynhenid gan gyflenwyr lleol ar gyfer y plannu, yn cynnwys derw, bedw, celyn, criafol, cyll a choed drain. Ein partneriaid ar y prosiect hwn oedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Chyngor Trefn Nefyn.



## Abergeirch

Mae ardal o dir - tua 18 hectar rhwng pentref Edern a'r arfordir wedi ei ddynodi yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA). Mae'r afon Geirch yn rhedeg trwy'r safle ac yn cyrraedd y môr yn Abergeirch. Dynodwyd y safle oherwydd ei lystyfiant tir gwlyb corsiog arbennig.

Fel rhan o'r prosiect comisiynwyd cwmni Ecoscope i wneud asesiad ecolegol o'r safle a'r nodweddion sydd yn ei gwneud yn unigryw. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys awgrymiadau o ran sut gellir cynnal ac adfer rhannau o'r safle. Yn ystod 2026-7 y gobaith yw y gellir gweithio i wireddu rhai o'r awgrymiadau hyn yn ogystal â gwella mynediad ac arwyddo ar y safle.

## Dad-Garboneiddio Neuaddau Pentref

Nod y prosiect hwn yw cynorthwyo neuaddau pentref a chanolfannau i ddad-garboneiddio trwy fesurau fel insiwleiddio, newid i oleuadau ynni isel LED, systemau gwresogi di-garbon a chreu neu storio ynni adnewyddol. Bydd y mesurau hyn hefyd yn cyfrannu tuag at gynaliadwyedd ariannol gan arbed costau.

Yn ystod 2025-26 bu'r Uned AHNE yn gweithio gyda thair neuadd i greu y gwelliannau canlynol:

- Canolfan Edern – prosiect syml i uwchraddio yr holl oleuadau i rai LED.
- Neuadd Goffa Sarn – pecyn o fatris i storio ynni adnewyddol (paneli eisoes yn eu lle) a lleihau dibyniaeth ar y grid trydan.
- Y Ganolfan, Trefor – uwchraddio goleuadau i rai LED, gosod paneli solar ar y to, system batri ac insiwleiddio.

## Rhywogaethau Ymledol Estron

Mae'r prosiect hwn yn deillio o waith ymchwil blaenorol - oedd wedi adnabod a diffinio lleoliadau ac ardaloedd lle mae'r rhywogaethau estron yn broblem. Mae rhywogaethau ymledol estron yn niweidiol i fywyd gwyllt cynhenid yr ardal ac yn cael eu hadnabod fel bygythiad. Roeddem felly yn awyddus i geisio cael gwared ar y rhywogaethau hyn mewn rhai mannau.

Yn ystod 2025 buom yn gwaredu Jac y Neidiwr (*Impatiens glandulifera*) ar ddau safle – ym Mhistyll a Phenllech. Er fod safleoedd eraill wedi eu hadnabod - roedd yn ymddangos fod y planhigyn wedi sefydlu mor gryf yn rhai o'r mannau hynny na fyddai yn bosib cael ei reoli.

Ar y cyfan mae Llysiau'r Dial (*Reynoutria japonica*) yn haws ei drin na Jac y Neidiwr oherwydd nad yw yn lledaenu mor sydyn. Felly yn ystod 2025, rhoddwyd llawer o ymdrech i'w chwistrellu ar amrywiol safleoedd cyhoeddus - yn arbennig ym mhentref Trefor. Byddwn yn ail-ymweld â'r safleoedd hyn yn ystod 2026 ac yn ail chwistrellu os bydd angen.

Bu gwaith hefyd yn digwydd wrth droed Garn Boduan a ger y traeth yn Llanbedrog i drin coed Rhododendron.

Byddwn yn ystod y gwanwyn yn cynnal sesiwn wybodaeth ddefnyddiol ar rywogaethau ymledol mewn partneriaeth ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Mae croeso cynnes i bawb. Am fwy o wybodaeth ac i gofrestru – ewch i dudalen 9.







## Prosiectau Mynediad ac Is-Adeiledd

Yn ogystal â phrosiectau natur a dad-garboneiddio roedd gan yr Uned AHNE nifer o brosiectau isadeiledd / gwella mynediad.

Dyma flas ar rai ohonynt:

- Porthor – Adfer llwybr aml-ddefnydd ar hyd yr allt fôr a gosod byrddau picnic.
- Aberdaron – Ail-agor a gwella llwybr Rhif 16 o gyfeiriad i Aberdaron i blasty Bodwrdda.
- Cei Trefor – Adnewyddu rheiliau haearn ar safle'r harbwr a gosod meinciau newydd.









Am fwy o wybodaeth am yr holl brosiectau uchod – byddwn yn rhoi diweddariad yn rheolaidd ar ein cyfrif Instagram. Gallwch gysylltu gyda ni yn uniongyrchol hefyd dros e-bost **ahne@gwynedd.llyw.cymru**


# Lle yn Llŷn?

Dyma gyfle i chi gymryd rhan mewn cystadleuaeth arbennig – drwy adnabod rhai o leoliadau'r ardal.
Allwch chi adnabod y chwe lleoliad isod tybed?
Gyrrwch eich atebion i ni dros e-bost yn cynnwys eich manylion cyswllt.
Dyma'r cyfeiriad – **ahne@gwynedd.llyw.cymru**
**Dyddiad Cau, Awst 31ain 2026**
Bydd un enillydd, i'w ddewis ar hap.
Ewch amdani a phob lwc!

## GWOBR HAEL

**Mordaith i ddau i Ynys Enlli**


1


2


3


4


5


6



cystadleuaeth



# Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy

**Pleser yw cyhoeddi fod y Gronfa Datblygu Cynaliadwy yn parhau yn y flwyddyn ariannol 2026 / 2027 a byddwn yn derbyn ceisiadau yn ystod y flwyddyn.**

**Beth ydi'r Gronfa?**
Mae Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol Cymru yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru yn flynyddol ar gyfer cefnogi prosiectau amgylcheddol a chynaliadwy yn yr ardaloedd arbennig hynny.

Yma yn Llŷn – mae'r Gronfa yn cael ei gweinyddu o fewn yr Uned AHNE ac mae Panel Grantiau yn cyfarfod yn rheolaidd er mwyn asesu a gwneud penderfyniadau ar geisiadau amrywiol.

**Sut fath o brosiectau sy'n gymwys?**
Mae pwyslais ar gefnogi prosiectau sydd yn cynnal neu wella y tirlun a nodweddion arbennig, yn cynnal byd natur, yn gwella adnoddau cymunedol allweddol ac yn atgyfnerthu'r iaith Gymraeg a'r diwylliant.

**Eleni – mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno canllawiau newydd – a bydd yn ofynnol i 60% o'r cyllid gael ei ddyrannu i brosiectau sydd yn ymateb i'r argyfwng natur a hinsawdd a cholledion mewn bioamrywiaeth.**

**Pwy all ymgeisio?**
Gall y Gronfa gefnogi ceisiadau gan asiantaethau, grwpiau gwirfoddol, cynghorau cymuned a mudiadau eraill – cyn belled fod gennych gyfansoddiad a chyfri banc.

Hefyd gall unigolion a chwmnïau preifat wneud cais – ar yr amod y gellir dangos y byddai eu prosiectau o fudd i'r ardal a'r gymuned.

Gwelwch wefan yr AHNE am fwy o wybodaeth neu cysylltwch gyda ni am sgwrs bellach ac i drafod eich syniadau.

**ahne@gwynedd.llyw.cymru**



